**CFA25 Estyn**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Cymraeg i bawb?** | **Cymraeg for all?**

Ymateb gan: Estyn | Evidence from: Estyn

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Cyflwyniad**

Cytunwn bod diffyg cyfleoedd i glywed a defnyddio'r Gymraeg y tu allan i furiau'r ysgol yn cael effaith ar brofiadau plant a phobl ifanc o'r Gymraeg. Mae'r diffyg cyfleoedd hyn yn cynnwys defnyddio'r Gymraeg ar lwyfannau digidol. Mewn rhai ardaloedd, mae disgyblion yn teithio'n bell i gael mynediad i addysg Gymraeg. Yn ogystal, nid oes pob amser ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg digonol gan y gwasanaethau ieuenctid.

Rydym yn cytuno bod angen gwneud mwy i ddatblygu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ardaloedd ble mae llai o siaradwyr. Ble trefnir digwyddiadau a phrofiadau, rydym yn adnabod effaith cadarnhaol hyn ar hyder a gallu plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r iaith.

Rydym yn annog Llywodraeth Cymru

- i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod mynediad gan bob plentyn at addysg cyfrwng Cymraeg o fewn pellter rhesymol i'w cartref.
- i sicrhau bod cefnogaeth i awdurdodau lleol a'r trydydd sector i ddatblygu darpariaeth chwarae ac ieuenctid cyfrwng Cymraeg fel bod cyfleoedd allgyrsiol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith.
- i sicrhau hyfforddiant a chyfleoedd dysgu proffesiynol i gefnogi gweithwyr yn y sector chwarae a ieuenctid i ddeall a gweithredu strategaethau caffael iaith.
- i barhau i fonitro Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg Awdurdodau Lleol gan ystyried faint o ddisgyblion sydd yn trosglwyddo o'r sector blynyddoedd cynnar i'r cynradd, or cynradd i'r uwchradd ac i addysg ôl-16 ble rhoddir cyfle i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.
- i sicrhau bod cyfleoedd ystyrlon gan fyfyrwyr addysg bellach, prentisiaid a dysgwyr oedolion yn y gymuned i ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg ble bynnag maent yn byw yng Nghymru. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod addysgeg a medrau iaith staff yn y sectorau hyn yn cael eu datblygu'n strategol ym mhob ardal gyda'r nod o symud dysgwyr i fyny y pyramid neu gontinwwm iaith o'u mannau cychwyn.
- i barhau i gynnig cyfleoedd gwerthfawr i oedolion gaffael y Gymraeg at ddibenion gwaith trwy gynlluniau yn y sector Dysgu Cymraeg.

**1. Beth yw'r prif rwystrau sy'n atal defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg, a beth allai helpu i newid hyn?**

- Mae tystiolaeth o'n harolygon yn awgrymu nad oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion glywed a defnyddio'r iaith Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol tu hwnt i furiau'r ysgol, yn arbennig mewn ardaloedd ble mae llai o siaradwyr Cymraeg. Caiff hyn effaith ar hyder

disgyblion wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar ac ar eu canfyddiad o werth a pherthnasedd y Gymraeg fel iaith fyw a hyfyw yn eu bywydau bod dydd. Yn aml, mewn ardaloedd ble mae llai o siaradwyr Cymraeg, Saesneg yw iaith yr aelwyd a'r iaith gymdeithasol a ddefnyddir gan blant a phobl ifanc gyda'u cyfoedion.

- Nid oes pob amser fynediad rhwydd at ddarpariaeth meithrin ac addysg ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn rhai ardaloedd ble siaredir llai o Gymraeg, mae disgyblion yn wynebu teithiau pell i'r darparwr Cymraeg agosaf. Mae creu naws gymunedol ble cynhelir digwyddiadau i rieni a phlant sy'n mynychu ysgol neu feithrinfa cyfrwng Cymraeg felly yn anoddach ac yn dibynnu ar ffactorau megis llwybrau trafnidiaeth cyhoeddus.
- Yn yr ardaloedd hyn, nid oes pob amser ganolfan neu ganolbwynt i'r Gymraeg fel bod cyfleoedd i ddisgyblion gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg tu allan i oriau ysgol ac adeg gwyliau. Yn aml, nid oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol. Mae hyn yn medru creu ymdeimlad mai iaith ymylol a dibwys yw'r Gymraeg.
- Gyda'r twf mewn llwyfannau ffrydio yn myd darlledu, mae llai o bobl yn derbyn newyddion a gwybodaeth am Gymru a'u hardal leol. Yn ogystal, mae algorythmau llwyfannau megis Facebook yn golygu eu bod yn derbyn straeon newyddion Prydeining. Golyga hyn mai ychydig iawn o ymwybyddiaeth sydd ganddynt o Gymru a'r Gymraeg. Nid yw'r Gymraeg yn amlwg ar lwyfannau megis TikTok, Snapchat, Instagram a Facebook.
- ran addysg ôl-16 gwelwn mai colegau a darparwyr prentisiaethau sydd ag ymagweddau mwy cadarnhaol tuag at y Gymraeg ac yn meddu ar brosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella effeithiol sydd yn llwyddo orau i ddatblygu medrau iaith ac addysgeg dwyieithog eu staff, yn ogystal â chynllunio'n fwriadus i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg yn gyffredinol. O ganlyniad, nid yw'r darlun ar draws y wlad, gan gynnwys ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg, yn gyson.
- Nid oes digon o gyfleoedd gan ddysgwyr yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned i wella neu ddefnyddio eu medrau iaith trwy gyrsiau cyfrwng Cymraeg. (Ni chyfeirir at gyrsiau dysgu'r iaith yn y sector Dysgu Cymraeg yn y cyd-destun hwn).

**Beth gellir ei wneud i newid hyn?**

- Sicrhau bod y Gymraeg i'w chlywed mewn digwyddiadau rheolaidd neu mannau penodol yn yr ardaloedd ble mae llai o siaradwyr Cymraeg trwy nawdd mentrau iaith, sefydliadau Cymraeg a gwaith awdurdodau lleol.
- Parhau i fonitro cynnydd awdurdodau lleol yn erbyn eu Cynlluniau Strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg.
- Ystyried sut gellir cefnogi gweithgareddau allgyrsiol ysgolion Cymraeg a Saesneg i annog mwy o gyfranogiad yn y Gymraeg ac i feithrin ymdeimlad bod yr iaith yn berthnasol ac yn perthyn i bawb.
- Sicrhau bod gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn adeiladu capasiti i gynnig mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gall hyn gael ei gyflawni trwy greu partneriaeth gyda mudiadau megis yr Urdd. Fodd bynnag, mae hyn yn gallu arwain at y cysyniad bod y Gymraeg yn rhywbeth mae mudiadau arbenigol yn ei wneud yn hytrach na rhywbeth sydd

yn cael ei integreiddio a'i normaleiddio o fewn eu gwasanaethau eu hunain. Mae'n holl bwysig i wasanaethau ddefnyddio a datblygu'r adnoddau dynol sydd ganddynt eisoes. Rydym wedi gweld, mewn arolygiadau o ddarpariaeth ieuenctid, enghreifftiau o weithwyr ieuenctid Cymraeg eu hiaith sy ddim yn cael eu defnyddio'n strategol i gynyddu defnydd o'r iaith wrth ymgysylltu â phobl ifainc.

- Sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol i weithwyr o fewn y sectorau sydd yn darparu gwasanaethau chwarae, ieuenctid neu ddigwyddiadau Cymraeg, yn deall a defnyddio strategaethau caffael iaith.
- Sicrhau bod mwy o ddeunydd cyfrwng Cymraeg yn ymddangos at y cyfryngau ac wrth ddefnyddio technoleg er mwyn normaleiddio'r iaith. Annog hyn ar lefel cenedlaethol a lleol.
- Mae angen i bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned weithio'n fwy effeithiol gyda chyrff megis y mentrau iaith, Merched y Wawr ac ati sydd yn cynnal cyrsiau cyfrwng Cymraeg eisoes a gweithio gyda nhw'n strategol i gynyddu'r cynnig. Ble mae hyn yn digwydd mae'r cynnig cyfrwng Cymraeg i'r cyhoedd yn cryfhau.

**2. Pa fath o ofodau a chyfleoedd a allai annog mwy o ddefnydd o'r iaith, a chynyddu hyder o ran ei defnyddio, mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd yn gyfyngedig?**

- Mae angen cynllunio mwy o weithgareddau rheoliadd trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod gwyliau ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc, o bosib dan adain neu wedi ei gydlynu gan y mentrau iaith. Mae angen normaleiddio'r Gymraeg ym mywydau pob dydd pobl ifanc er enghraifft trwy gynlluniau chwarae cyfrwng Cymraeg gyda ffocws ar fwydo iaith ac annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg tu hwnt i'r ysgol . Byddai modd cyd-weithio gyda phartneriaid megis gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol a'r Urdd i sicrhau rhaglen gydlynus a chynhwysfawr. Gofodau ble mae cyfarpar ar gyfer plant a phobl ifanc, er enghraifft mannau chwarae, llyfrgelloedd, caffis ieuenctid.
- Adeiladau ysgolion (ar ôl oriau ysgol neu yn ystod y gwyliau) a chanolfannau hamdden er mwyn hyrwyddo'r syniad o gymuned a chymryd rhan mewn gweithgaredd trwy gyfrwng y Gymraeg i fagu hyder.
- Mae defnyddio gofodau cyhoeddus yn fuddiol, er enghraifft mannau ble mae'n bosib cyfarfod dros goffi neu ddiod fel bod elfen gymdeithasol a chyffyrddus.
- Defnydd o barc chwarae neu ofod awyr agored yn ystod misoedd yr haf, er enghraifft Parc Angharad, Parc Gwledig Dyffryn Alun (Wrecsam). Ffocws ar drefnu cyfle i sgwrsio a datblygu hyder.
- Defnydd o fysiau cyhoeddus/fflecsi i gasglu pobl ar gyfer gweithgareddau a'u hebrwng gartref.

**3. A allwch chi rannu enghreifftiau o fentrau neu weithgareddau llwyddiannus sydd wedi annog defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith yn gyfyngedig?**

- Trwy ein gwaith arolygu, rydym yn gweld enghreifftau o fentrau a gweithgareddau sydd wedi annog y defnydd o'r Gymraeg dros gyfnod. Mae enghreifftiau amlwg ym Mhontypridd yn dilyn yr Eisteddfod Genedlaethol a Phowys yn dilyn Eisteddfod Meifod 2024.
- Mae rhai ysgolion yn cydweithio er mwyn cynnal digwyddiadau cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd. Er enghraifft, mae Ysgol Pen y Dre yn cynnal Eisteddfod ar gyfer ei ysgolion cynradd partner er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg.
- Mae enghreifftiau ble mae ysgolion yn manteisio ar ddigwyddiadau lleol i hyrwyddo'r Gymraeg gyda disgyblion a'u teuluoedd. Er enghraifft, Gorymdeithiau Gŵyl Dewi Prestatyn a Wrecsam, Eisteddfod y Rhondda.
- Mewn rhai ardaloedd ble cynhelir gwyliau cerddoriaeth Gymraeg, mae trefnwyr yn sicrhau bod artistiaid (bandiau neu unigolion sy'n perfformio yn y Gymraeg) yn ymweld ag ysgolion er mwyn cynyddu diddordeb yn y digwyddiad.
- Mae adroddiadau arolygu sector Cymraeg i Oedolion yn dangos bod y sector Dysgu Cymraeg yn effeithiol o ran sicrhau defnydd o'r iaith y tu allan i wersi. Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio eu hiaith yn rhagweithiol yn y gymuned, yn y gwaith, gyda'r teulu ac ati. Mae hyn oherwydd pwyslais y sector ar ddatblygu llafaredd a chreu siaradwyr gweithredol yn hytrach nag anelu at greu dysgwyr sy'n sefyll arholiadau'n unig. Mae hyn, wrth reswm, yn haws mewn rhai ardaloedd ond gwelwn yn gyson fod llawer o ddysgwyr, hyd yn oed mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg, yn defnyddio'r Gymraeg trwy fynychu digwyddiadau a chymdeithasau yn y gymuned neu drwy greu rwydweithiau i ddysgwyr er mwyn ymarfer â'i gilydd.

**4. Sut y gallai technoleg ac offer digidol helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n defnyddio'r iaith yn anaml neu sydd â diffyg hyder?**

- Gellir cynyddu yr hyn sydd ar gael yn y Gymraeg ar lwyfannau poblogaidd fel TikTok ac Instagram gan gomisiynu a chefnogi pobl i gynhyrchu cynnwys rheolaidd. Gellir tynnu sylw at ddigwyddiadau diwylliannol fel rhan o hynny. Gellid comisiynu cynnwys gan drefnwyr gwyliau a digwyddiadau i'w osod ar lwyfannau digidol dros amser, er enghraifft clipiau byr o Lwyfan y Maes / gigs Gŵyl Triban, Parti Ponty. Yn ogystal, gellir hyrwyddo yr hyn sydd yn bodoli yn barod gan gynnwys Cyw a Hansh.
- Gellir sicrhau bod defnyddwyr yn gwybod ble i dderbyn gwybodaeth am y Gymraeg a'r hyn sydd yn digwydd yn lleol. Gellir hysbysebu beth sydd yn cael ei gynnig yn fwy effeithiol, er enghraifft gwaith y mentrau iaith.
- Gellir hyrwyddo gwefannau defnyddiol megis y map rhyngweithiol o wyliau a digwyddiadau a ddarperir gan 'awni.cymru'.
- Gellir ystyried sut mae sicrhau bod llwyfannau ffrydio yn cynnwys deunydd o Gymru ac am y Gymraeg i godi ymwybyddiaeth o'r iaith. Yn aml, mae defnyddwyr ifanc yn dibynnu yn llwyr ar lwyfannau ffrydio ac nid ydynt yn gweld hysbysebion teledu, newyddion Cymreig a lleol i normaleiddio'r iaith.

- Gall defnydd o ddeallusrwydd artiffisial i greu cynnwys yn gyflym fod yn fuddiol. Gellir cyflwyno deunydd yn ddwyieithog, gellir defnyddio'r dechnoleg i gynnwys cyfeithiadau neu addasu testun a chynnwys i fod yn addas ar gyfer lefelau ieithyddol gwahanol. Er enghraifft, trwy greu podlediadau byr yn crynhoi beth sy'n digwydd yn lleol trwy fwydo gwybodaeth am gigiau, neu gyfleoedd i gyfarfod i sgwrsio yn y Gymraeg ac yn y blaen.
- Gellir cefnogi sefydliadau sydd yn rhannu newyddion lleol (ffynonellau newyddion ar lein) i'w helpu i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru a hysbysebu digwyddiadau sydd yn rhoi cyfleoedd i bobl glywed a defnyddio'r iaith.
- Hyrwyddo'r ddarpariaeth dysgu Cymraeg sydd ar gael er mwyn codi ymwybyddiaeth gan gynnwys y ddarpariaeth i ddatblygu hyder unigolion.
- Manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio technoleg ac offer digidol a chyfryngau cymdeithasol i hysbysu manteision addysg Gymraeg i rieni di-Gymraeg ar fynediad eu plant i leoliadau sy'n cynnig gofal ac addysg gynnar.
- ran oedolion, mae dysgu Cymraeg neu ddilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg ar-lein yn creu cyfleoedd gwerthfawr i bobl ddefnyddio'r iaith yn gyson. Mae manteision o safbwynt hygyrchedd a sicrhau niferoedd digonol i gynnal dosbarth hyfyw. Fodd bynnag, ni ddylid anghofio pwysigrwydd rhyngweithio'n ieithyddol mewn cyd-destunau wyneb yn wyneb lle mae cyfleoedd i ddysgwyr rhugl a newydd ddatblygu eu medrau iaith mewn ffyrdd sy ddim yn bosibl ar-lein.
- Mae adroddiad thematig Estyn ar gynlluniau hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i'r sector addysg bellach a phrentisiaethau y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cyfeirio at hyfforddiant buddiol ar e-ddysgu. Mae'r sesiynau yn dangos i ymarferwyr yn y sectorau hyn pa fath o adnoddau Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael a sut i'w defnyddio i ehangu defnydd o'r Gymraeg. Yn yr un modd mae darpariaeth Sgiliaith, mewn sesiynau ar-lein yn bennaf, yn rhoi cyngor buddiol iawn i ymarferwyr fewnosod y Gymraeg yn eu gwaith. Yn gyffredinol, credwn fod angen i bwysleisio gwerth masnachol y Gymraeg o fewn cymwysterau galwedigaethol a phrentisiaethau'n fwy effeithiol.
- Mae enghreifftiau nodedig o ddefnyddio'r byd digidol i ehangu defnydd o'r Gymraeg. Gwelir yn yr **Adroddiad arolygiad Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol 2024** bod y Ganolfan, yn dilyn ymchwil i'r farchnad o ran rhesymau pobl ifanc dros ddysgu'r Gymraeg, wedi llunio ymgyrch farchnata aml-blatfform yn targedu pobl ifanc rhwng 16-25 oed yn benodol. Defnyddiwyd llwyfannau priodol ac apelgar i'w targedu, gan ddefnyddio dylanwadwyr addas i farchnata manteision dysgu Cymraeg. O ganlyniad i'r ymgyrch farchnata hon, gwelwyd twf o 9% yn y bobl ifanc rhwng 16-25 oed wnaeth fynychu gwersi Dysgu Cymraeg yn 2022-23.

**5. Pa effaith, yn eich barn chi, y mae digwyddiadau diwylliannol fel Eisteddfodau cenedlaethol neu wyliau Cymraeg yn ei chael ar y defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â llai o siaradwyr Cymraeg?**

- Mae digwyddiadau diwylliannol fel yr Eisteddfod Genedlaethol a gwyliau Cymraeg yn cael effaith cadarnhaol ar y nifer o gyfleoedd sydd ar gael i blant a phobl ifanc glywed a defnyddio'r Gymraeg mewn ardaloedd lle nad oes niferoedd sylweddol o siaradwyr. Mae'r gwyliau hyn yn aml yn cael effaith cadarnhaol ar agweddau pobl tuag at y Gymraeg dros gyfnod. Mae hyn yn aml oherwydd bod nifer fawr o weithgareddau yn cael eu trefnu i godi arian neu ymwybyddiaeth o'r digwyddiad dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae'n normaleiddio'r iaith mewn ardal ac yn aml yn gadael gwaddol ar ei ôl, er enghraifft Eisteddfodau bach a gigiau Cymraeg. Gwelwn dystiolaeth o hyn yn ein harolygon mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac awdurdodau lleol.
- Mae gweithgareddau'r Eisteddfod Genedlaethol gan gynnwys Maes D yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a datblygu eu rhuglder mewn awyrgylch Gymraeg a Chymreig. Hefyd, mae modd iddynt ddysgu mwy am yr arlwy dysgu Cymraeg sydd ar gael iddynt yn lleol ac yn genedlaethol. Mae rhaglen gweithgareddau Maes D yn denu siaradwyr rhugl a dysgwyr, er enghraifft trwy sesiynau cerddoriaeth Maes D. Yn ogystal, mae natur amrywiol yr Eisteddfod yn golygu bod rhywbeth at ddant pawb, o'r Pentref Gwyddoniaeth, i'r Pafiliwn a Llwyfan y Maes. Mae ymgais i ddenu dysgwyr trwy gyfleoedd i gystadlu a pherfformio yn nigwyddiadau'r Eisteddfod. Gwelwyd hyn yng nghystadlaethau dysgwr y flwyddyn, cystadlaethau corawl a pherfformiadau lleol.
- Mae effaith Eisteddfod yr Urdd yn arwyddocaol wrth hybu a chodi ymwybyddiaeth plant a'u rhieni o ddiwylliant Cymru a'r Gymraeg. Mae strwythur y cystadlu mewn eisteddfodau cylch a sirol yn golygu bod cyfleoedd ar draws ardaloedd Cymru i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol dros gyfnod. Mae'r Urdd yn rhoi cyfleoedd clodwiw i blant a phobl ifanc berfformio a chystadlu ar lwyfan. Yn ogystal, mae cyfleoedd i gystadlu ar lwyfan chwaraeon. Mae gweithgareddau'r Urdd yn aml yn cael eu crybwyll gan ddisgyblion fel profiadau buddiol wrth i ni holi barn disgyblion mewn ysgolion.
- Mae'r digwyddiadau diwyliannol hyn yn rhoi cyfle i oedolion sy'n dysgu'r Gymraeg gymryd rhan mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cyfleoedd i godi arian ac i stiwardio mewn eisteddfodau yn brofiad gwerthfawr. Mewn arolygiad o Ddysgu Cymraeg Morgannwg ym mis Tachwedd 2024 gwelwyd bod Côr y Dysgwyr, a gafodd ei sefydlu ar gyfer Eisteddfod Rhondda Cynon Taf, yn mynd o nerth i nerth
- Mae natur deithiol y gwyliau hyn yn hollbwysig i sicrhau bod cynifer o ardaloedd yng Nghymru yn profi budd Eisteddfod Genedlaethol neu Eisteddfod yr Urdd. Gwelwn dystiolaeth o hyn yn ein harolygon.
- Mae gwyliau cerddoriaeth Gymraeg mewn ardaloedd ble nad oes cymaint o Gymraeg yn cael ei siarad yn arwyddocaol. Yn yr achosion hynny ble maent yn wyliau agored mae cyfle i bawb glywed cerddoriaeth gan fandiau Cymraeg. Enghraifft dda yw gwyliau megis Parti Ponty, Gŵyl Fel 'Na Mai a Gŵyl Rhuthun sy'n denu siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Mae digwyddiad gyda phroffil cenedlaethol fel Dydd miwsig Cymru yn gallu cael effaith mawr ar ddefnydd o Gymraeg, gyda digwyddiadau cysylltiedig ar draws Cymru.
- Mae digwyddiadau Cymraeg yn rhoi cyfleoedd i ysgolion cyfrwng Cymraeg ddathlu'r iaith yn eu hardal leol tra'n sicrhau cyfleoedd i ysgolion cyfrwng Saesneg ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am hunaniaeth, diwylliant ac iaith Cymru.

**6. Sut y gellid addasu neu wella’r digwyddiadau hyn (boed yn rhai mawr neu fach o ran maint) i wasanaethu cymunedau â llai o siaradwyr Cymraeg yn well?**

- Gellid addasu neu wella’r digwyddiadau hyn trwy sicrhau gwell hysbysebu ynglŷn â chynnwys yr achlysuron ynghyd a beth sydd ar gael i ddysgwyr a’r rhai sydd yn ddi-Gymraeg. Er enghraifft, trwy hysbysebu argaeledd offer cyfieithu neu sesiynau sydd yn cynnwys cyfleoedd i siaradwyr fagu hyder yn ogystal â phwysleisio’r amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael.
- Sefydlu trefn ôl-Eisteddfod er mwyn hyrwyddo gwaddol yr ŵyl ar draws Cymru gyda ffocws ar ddefnyddio’r Gymraeg
- Sicrhau bod y digwyddiadau yn rhesymol o ran pris er mwyn denu teuluoedd.
- Sicrhau argaeledd digwyddiadau mewn ardaloedd megis y cymoedd ac ar arfordir y gogledd ddwyrain fel bod trafnidiaeth a mynediad i bob cymuned dros amser.
- Sicrhau bod cyhoeddusrwydd cadarnhaol i ddigwyddiadau mewn cymunedau ble mae llai o siaradwyr Cymraeg gan gynnwys digwyddiadau ar raddfa lai. Er enghraifft, gweithgareddau mewn canolfannau fel Saith Seren (Wrecsam), Gwesty Owain Glyndŵr (Corwen), Tŷ Tawe (Abertawe).
- Hyrwyddo’r defnydd o ddigwyddiadau ar-lein neu ddarlledu digwyddiadau ar lein er mwyn cyrraedd cynulleidfa fwy eang.

**7. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw’r Pwyllgor atynt mewn perthynas â dull Llywodraeth Cymru o gefnogi’r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg?**

- Rhoddwyd argymhelliad i ddatblygu medrau Cymraeg mewn 18.9% (49) o arolygiadau ysgolion cynradd yn 2023-2024. Cafodd 32% (10) o ysgolion uwchradd argymhelliad i wella’r ddarpariaeth Gymraeg yn 2023-2024. Rhoddwyd argymhelliad am y Gymraeg i 13 lleoliad meithrin nas cynhelir (14%). Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddatblygu eu hyder a’u medrau mewn gweithgareddau a digwyddiadau.
- Nid yw arweinwyr ysgol pob amser yn ymwybodol o dargedau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.
- Nid yw awdurdodau lleol pob amser yn gosod targedau digon heriol o ran datblygu’r Gymraeg yn eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Nid ydynt pob amser yn darparu digon o gefnogaeth i ddatblygu’r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.
- Mewn rhai ardaloedd, collir disgyblion o addysg cyfrwng Cymraeg wrth iddynt drosglwyddo o un darparwr i un arall. Er enghraifft, yn adroddiad arolygiad awdurdod lleol Casnewydd, cyfeirir at golli disgyblion wrth iddynt bontio o leoliadau blynyddoedd cynnar i addysg statudol.
- Mae’r cyfleoedd i astudio cyrsiau neu brentisiaethau ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywiol iawn ar draws Cymru gan olygu nad yw disgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael cyfle i astudio yn yr iaith wedi blwyddyn 11.